# CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster sylfaen cyffredinol newydd a gymeradwywyd i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

DRAFT

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## CYNNWYS

CRYNODEB O'R ASESU .......... 5
1 CYFLWYNIAD 9
1.1 Nodau 9
1.2 Cwricwlwm i Gymru 9
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant 10
1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm Oriau Cymhwyso 10
1.5 Y defnydd o iaith 11
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg 11
2 CYNNWYS Y PWNC 12
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad 12
Uned 1 13
Uned 2 16
Uned 3 18
Uned 4 20
Uned 5 22
Uned 6 24
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu 27
3 ASESU 28
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli 28
3.2 Trosolwg o'r Asesu 29
3.3 Hyd yr asesiad 29
3.4 Rheoli'r asesiad 29
3.5 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol 30
4 CAMYMDDWYN 32
5 GWYBODAETH DECHNEGOL 33
5.1 Cofrestru 33
5.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster 33
5.3 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl 34
5.4 Ailsefyll asesiadau 34
5.5 Ail-wneud y cymhwyster 35
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru 36

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Lluniwyd ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, a chynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy’n hygyrch ac yn ennyn diddordeb. Gyda’r cymwysterau hyn, bydd dysgwyr yn gallu magu hyder, yn datblygu gwybodaeth hanfodol, yn dod i ddeall sgiliau, ac yn mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yw eu strwythur unedol. Dyma sy’n caniatáu i’r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda’r hyblygrwydd hwn, mae’n bosibl gwneud cynnydd yn raddol, mae llai o bwysau asesu, ac mae’r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw’n ei gyflawni drwy gydol y cwrs.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Nid oes angen yr un perfformiad ym mhob maes, ac mae hynny felly'n golygu bod modd cyflawni'n uchel mewn un uned a hynny wedyn yn gwneud iawn am berfformiad is mewn uned arall. Mae'r profiad asesu felly'n un cynhwysol a chefnogol ar y sail hon.

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn adeiladu ar y ddealltwriaeth o gysyniadau a ddatblygodd dysgwyr yn rhan o'u dysgu rhwng 3 ac 14 oed wrth ddilyn y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cysylltu â'r pedwar diben a'r egwyddorion cynnydd, ac yn cefnogi hynny. Er eu bod yn wahanol iawn i'r TGAU, cawsant eu llunio gennym i gynnig sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i'r TGAU cysylltiedig, gan ganolbwyntio ar sgiliau a dealltwriaeth debyg.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau

## CRYNODEB O'R ASESU

**Unedau dewisol:**

**Uned 1: Busnes**
**Portffolio: awgrymir y dylid treulio tua 8 awr arno**
**35% o'r cymhwyster**
**Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.**
**60 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio. Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg wedi'u cwblhau.

Bydd y tasgau'n cael eu gosod gan CBAC a byddant yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb. Bydd gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n cyflawni'r tasgau.

**Uned 2: Daearyddiaeth**
**Portffolio: awgrymir y dylid treulio tua 8 awr arno**
**35% o'r cymhwyster**
**Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.**
**60 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio. Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg wedi'u cwblhau.

Bydd y tasgau'n cael eu gosod gan CBAC a byddant yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb. Bydd gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n cyflawni'r tasgau.

**Uned 3: Hanes**
**Portffolio: awgrymir y dylid treulio tua 8 awr arno**
**35% o'r cymhwyster**
**Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.**
**60 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio. Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg wedi'u cwblhau.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Bydd y tasgau'n cael eu gosod gan CBAC a byddant yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb. Bydd gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n cyflawni'r tasgau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Uned 4: Astudiaethau Crefyddol**<br>**Portffolio: awgrymir y dylid treulio tua 8 awr arno**<br>**35% o'r cymhwyster**<br>**Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.**<br>**60 marc** |
|---|
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio. Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg wedi'u cwblhau.<br><br>Bydd y tasgau'n cael eu gosod gan CBAC a byddant yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb. Bydd gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n cyflawni'r tasgau. |
| **Uned 5: Astudiaethau Cymdeithasol**<br>**Portffolio: awgrymir y dylid treulio tua 8 awr arno**<br>**35% o'r cymhwyster**<br>**Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.**<br>**60 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio. Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg wedi'u cwblhau.<br><br>Bydd y tasgau'n cael eu gosod gan CBAC a byddant yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb. Bydd gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n cyflawni'r tasgau. |

**Uned orfodol:**

| **Uned 6: Creu cymunedau cynaliadwy yng Nghymru**<br>**Portffolio: awgrymir y dylid treulio tua 7 awr arno**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.**<br>**50 marc** |
|---|
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio. Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg wedi'u cwblhau.<br><br>Bydd y tasgau'n cael eu gosod gan CBAC a byddant yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb. Bydd gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n cyflawni'r tasgau. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Er mwyn gallu dyfarnu'r cymhwyster hwn i ddysgwyr, rhaid iddynt gwblhau **tair** uned:
- **dwy** uned ddewisol (wedi'u dewis o unedau 1-5)
- **un** uned orfodol (Uned 6).

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Cwblhau Uned 6 yn ystod blwyddyn olaf y cwrs fyddai fwyaf priodol i ddysgwyr. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r pynciau gwahanol cyn adeiladu ar hyn drwy wneud cysylltiadau rhwng pynciau’r dyniaethau yn yr uned olaf.

Nid yw trefn gyflwyno'r pum uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd unedau 1-5 ar gael o 2028, gydag Uned 6 ar gael yn 2029.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: Cliciwch yma i roi'r rhif achredu.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau yn helpu dysgwyr i wneud y canlynol:

- llunio cysylltiadau o fewn, a rhwng, meysydd y dyniaethau
- galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ymchwilio ac ymholi, gan ddefnyddio technoleg ddigidol lle bo hynny'n briodol
- ystyried gwahanol safbwyntiau a dehongliadau o faterion cyfoes a/neu hanesyddol o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- ystyried tystiolaeth i ddod i gasgliadau
- datblygu safbwyntiau gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol a chydnabod safbwyntiau pobl eraill.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc-benodolhynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 29; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gan roi cyfle i ddysgwyr:
  - ymholi, archwilio ac ymchwilio i ysbrydoli chwilfrydedd am y byd—ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol
  - cydnabod bod digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a'u bod yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd
  - deall bod ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol
  - gwerthfawrogi bod cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, a'u bod yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl
  - mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth fel dinasyddion gwybodus a hunanymwybodol, a chymryd camau ystyrlon a moesegol.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd drwy annog dysgwyr i wneud y canlynol:
  - cynyddu effeithiolrwydd fel dysgwr
  - cynyddu dyfnder ac ehangder gwybodaeth
  - dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd
  - mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau
  - creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd.

- Cefnogi'r nodau pwnc-benodol a nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo drwy alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:
  - llunio cysylltiadau o fewn, a rhwng, meysydd y dyniaethau
  - galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ymchwilio ac ymholi, gan ddefnyddio technoleg ddigidol lle bo hynny'n briodol
  - ystyried gwahanol safbwyntiau a dehongliadau o faterion cyfoes a/neu hanesyddol o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
  - ystyried tystiolaeth i ddod i gasgliadau
  - datblygu safbwyntiau gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol a chydnabod safbwyntiau pobl eraill.

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sail eang ar gyfer dilyniant i TGAU ym maes y Dyniaethau a chymwysterau cysylltiedig eraill. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm Oriau Cymhwyso

Lluniwyd CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o ganran yr ODA y rhagwelir y bydd ei hangen ar gyfer pob uned.

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. Gan fod Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 120 awr.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 1.5 Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion dylunio cynhwysol wedi'u cymhwyso trwy gydol y cymhwyster, gan gynnwys defnyddio iaith glir a diduedd ac enghreifftiau amrywiol. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i gynllunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn golygu nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan fydd gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.
- Mae 'Dylai dysgwyr ddeall' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 1

**Busnes**

Portffolio
35% o'r cymhwyster
60 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

### Trosolwg o'r uned

Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r hyn sy'n gwneud busnes llwyddiannus. Bydd dysgwyr yn archwilio sut mae busnesau'n gweithio a sut mae hysbysebu a hyrwyddo'n cyfrannu at lwyddiant. Byddant hefyd yn adolygu ac yn archwilio tystiolaeth i asesu pa mor dda y mae busnesau'n cyfathrebu.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar y canlynol:
- pwrpas gweithgaredd busnes, gan gynnwys refeniw, costau, elw a cholled
- rôl hysbysebu a hyrwyddo gwerthiant wrth gefnogi llwyddiant busnes.

### Meysydd cynnwys

1.1: Rôl Busnes
1.2: Hyrwyddo Busnes

| **1.1 Rôl Busnes** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>1.1.1 Pwrpas busnes<br>1.1.2 Refeniw, costau, elw a cholled<br>1.1.3 Sut mae busnesau'n cystadlu | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.1.1<br>Pwrpas busnes | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• pwrpas busnes a'i rôl yn:<br>    • darparu nwyddau a gwasanaethau<br>    • bodloni anghenion a dymuniadau cymdeithas<br>    • cynhyrchu incwm i berchnogion busnes<br>• y gwahanol fathau o sectorau busnes fel amaethyddiaeth, adeiladu, lletygarwch, gweithgynhyrchu, twristiaeth ac adwerthu<br>• enghreifftiau o fusnesau mewn sectorau gwahanol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 1.1.2<br>Refeniw, costau, elw a cholled | Dylai dysgwyr ddeall beth yw ystyr:<br>• refeniw<br>• costau<br>• elw<br>• colled.<br><br>Dylai dysgwyr wybod bod Refeniw - Cost = Elw neu Golled.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd uchafu refeniw a rheoli costau er mwyn gwneud elw. |
| 1.1.3<br>Sut mae busnesau'n cystadlu | Dylai dysgwyr wybod bod busnesau'n gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall natur:<br>• amgylchedd cystadleuol y mae busnesau'n gweithredu ynddo, megis:<br>    • cystadleuaeth ar sail pris a ffactorau eraill nad ydynt yn ymwneud â phris<br>    • cystadleuwyr lleol o gymharu â chystadleuwyr byd-eang<br>    • heriau gan fusnesau newydd<br>• amgylchedd sy'n newid yn gyflym y mae busnesau'n gweithredu ynddo, megis newidiadau i:<br>    • chwaeth defnyddwyr<br>    • technoleg<br>    • cymdeithas. |

| **1.2: Hyrwyddo busnes** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>1.2.1 Hysbysebu<br>1.2.2 Agweddau ffisegol a gweledol<br>1.2.3 Y cymysgedd marchnata | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.2.1<br>Hysbysebu | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• beth yw ystyr hysbysebu<br>• pam mae busnesau'n hysbysebu.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y cyfryngau hysbysebu gwahanol sydd ar gael i fusnesau, gan gynnwys:<br>• hysbysebu traddodiadol: teledu, radio, sinema, mewn siopau, cyfryngau print, byrddau hysbysebu, posteri, taflenni, hysbysebu ar drafnidiaeth<br>• hysbysebu digidol: cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, hysbysebion naid, hysbysebu ar beiriannau chwilio, hysbysebion digidol, hysbysebu symudol. |
| 1.2.2<br>Agweddau ffisegol a gweledol | Dylai dysgwyr ddeall ffyrdd y mae busnesau'n defnyddio agweddau ffisegol a gweledol i greu argraff ar gwsmeriaid, gan gynnwys:<br>• amgylchedd y siop<br>• sut mae cynhyrchion yn cael eu pecynnu a'u cyflwyno |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • arwyddion a brandio<br>• gwisgoedd y staff<br>• derbynebau<br>• sut mae gwefan yn edrych ac yn teimlo i'r defnyddiwr<br>• unrhyw eitemau eraill sy'n dangos ansawdd y cynnyrch neu'r gwasanaeth. |
| 1.2.3<br>Y cymysgedd marchnata | Dylai dysgwyr ddeall sut mae busnes yn creu cymysgedd marchnata i gyflawni llwyddiant:<br>• Cynnyrch - gan gynnwys brandio, portffolio cynnyrch a phwynt gwerthu unigryw (USP)<br>• Pris – gan gynnwys strategaethau prisio gwahanol gan gynnwys prisio cost plws, prisio cystadleuol a phrisio seicolegol<br>• Hyrwyddo – gan gynnwys hysbysebu, hyrwyddo gwerthiant a nawdd<br>• Lle – sut mae cynhyrchion yn cael eu dosbarthu i gwsmeriaid, gan gynnwys dosbarthu uniongyrchol, siopau adwerthu ffisegol, gwefannau adwerthu ac apiau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae'r pedair agwedd hyn (y 4P yn Saesneg) ar y cymysgedd marchnata yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud i fusnes lwyddo. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 2

**Daearyddiaeth**

Portffolio
35% o'r cymhwyster
60 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o sut mae pobl a'r amgylchedd yn rhyngweithio ac yn newid dros amser. Bydd dysgwyr yn archwilio sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar unigolion, cymunedau a lleoedd, a byddant yn defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth i asesu eu heffaith.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- achosion ac effeithiau trefoli mewn dwy ddinas fyd-eang gyferbyniol
- sut mae hinsawdd Cymru yn amrywio a sut gall tywydd eithafol effeithio ar bobl ac amgylcheddau yng Nghymru, yn y DU a'r byd.

**Meysydd cynnwys**

2.1: Trefoli
2.2: Tywydd a Hinsawdd

| **2.1 Trefoli** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>2.1.1 Trefoli<br>2.1.2 Patrymau defnydd tir trefol<br>2.1.3 Trefoli mewn dinasoedd cyferbyniol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.1.1<br>Trefoli | Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y term trefoli.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall achosion trefoli a sut mae ffactorau gwthio a thynnu yn dylanwadu ar symudiad pobl rhwng lleoedd. |
| 2.1.2<br>Patrymau defnydd tir trefol | Dylai dysgwyr wybod nodweddion arbennig y sectorau gwahanol mewn dinas neu dref, gan gynnwys:<br>• Canol Busnes y Dref *(CBD)*<br>• dinas fewnol<br>• maestrefi<br>• y cyrion trefol-gwledig.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae'r rhain yn newid dros amser a lle. |
| 2.1.3<br>Trefoli mewn dinasoedd cyferbyniol | Dylai dysgwyr ddeall sut mae ardaloedd trefol yn debyg ac yn wahanol mewn gwahanol ddinasoedd gan gynnwys:<br>• defnydd tir<br>• effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• trefoli mewn dwy ddinas gyferbyniol, megis dinas yn y DU ac un o gyfandir arall<br>• effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trefoli. |

| **2.2: Tywydd a Hinsawdd** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>2.2.1 Tywydd a hinsawdd<br>2.2.2 Gwasgedd uchel ac isel<br>2.2.3 Tywydd eithafol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.2.1<br>Tywydd a hinsawdd | Dylai dysgwyr wybod y gwahaniaeth rhwng tywydd a hinsawdd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• hinsawdd Cymru<br>• sut mae tymheredd a dyodiad yn amrywio mewn dau leoliad cyferbyniol yng Nghymru rhwng lleoedd a thros amser, (er enghraifft ardal arfordirol ac ardal fynyddig yng Nghymru, neu leoliad yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru.). |
| 2.2.2<br>Gwasgedd uchel ac isel | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• yr effaith mae systemau gwasgedd isel yn ei chael ar y tywydd yn y DU<br>• yr effaith mae systemau gwasgedd uchel yn ei chael ar y tywydd yn y DU. |
| 2.2.3<br>Tywydd eithafol | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol ar gyfer dau ddigwyddiad tywydd eithafol cyferbyniol fel sychder, ton wres, corwynt, storm neu dân gwyllt:<br>• yr achosion<br>• effeithiau (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol)<br>• ymatebion. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 3

**Hanes**

Portffolio
35% o'r cymhwyster
60 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddigwyddiadau hanesyddol pwysig o ddau gyfnod amser gwahanol, yng Nghymru ac o gwmpas y byd. Bydd dysgwyr yn archwilio achosion, effeithiau ac arwyddocâd y digwyddiadau hyn, a byddant yn defnyddio tystiolaeth i asesu eu heffaith.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- bywyd yng Nghymru yn ystod ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys faciwîs, datblygiad cyfleoedd hamdden, a phrofiadau mewnfudwyr
- y Pla Du: ei symptomau, sut y lledaenodd a'i effeithiau ledled y byd.

**Meysydd cynnwys**
3.1: Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif
3.2: Y Pla Du

<table>
<tr><th colspan="2">3.1: Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>3.1.1 Faciwîs yng Nghymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd<br>3.1.2 Newidiadau i gyfleoedd hamdden a'u heffaith ar fywydau pobl yng Nghymru<br>3.1.3 Mewnfudo a Chymru yn yr 1950au</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>3.1.1<br>Faciwîs yng Nghymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r rhesymau dros symud y faciwîs.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• o ba ardaloedd roedd y faciwîs yn dod a'r ardaloedd roedden nhw wedi symud iddyn nhw<br>• dulliau cludo<br>• y broses o ddyrannu faciwîs i'r teulu lletyol<br>• y cyfathrebu rhwng y faciwîs a'u teuluoedd<br>• profiadau cadarnhaol a negyddol faciwîs<br>• profiad o leiaf un faciwî yng Nghymru.</td></tr>
<tr><td>3.1.2<br>Newidiadau i gyfleoedd hamdden a'u heffaith ar fywydau pobl yng Nghymru</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• ystyr y term ‘gweithgaredd hamdden’ gydag enghreifftiau<br>• effaith teledu ar fywyd pobl, gan gynnwys:<br>    • adloniant<br>    • rhaglenni addysg a mynediad at y newyddion<br>    • hysbysebu<br>    • datblygiad teledu yn y Gymraeg<br>• effaith twristiaeth ar fywyd pobl, gan gynnwys:</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • creu swyddi mewn gwestai, siopau ac atyniadau<br>• twf cyrchfannau glan môr a pharciau carafannau<br>• effeithiau negyddol ar gymunedau lleol. |
| 3.1.3<br>Mewnfudo a Chymru yn yr 1950au | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• pam y daeth pobl i Gymru<br>• profiad mewnfudwyr i Gymru gan gynnwys<br>  ◦ swyddi<br>  ◦ tai<br>  ◦ gwahaniaethu<br>• cyfraniadau mewnfudwyr at gymdeithas a diwylliant Cymru, fel cenhedlaeth Windrush. |

| **3.2: Y Pla Du** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>3.2.1 Symptomau'r Pla Du<br>3.2.2 Ymdrechion i atal y clefyd rhag lledaenu<br>3.2.3 Effaith y Pla Du | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.2.1<br>Symptomau'r Pla Du | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ffyrdd y gall clefydau ledaenu.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• ystyr y geiriau Pla Du a phla<br>• symptomau'r Pla Du gan gynnwys:<br>  ◦ llinorod<br>  ◦ twymyn<br>  ◦ pyliau oer<br>  ◦ cur pen<br>  ◦ chwydu<br>• bod llawer o bobl a ddaliodd y clefyd wedi marw. |
| 3.2.2<br>Ymdrechion i atal y clefyd rhag lledaenu | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• dulliau crefyddol ac ofergoelus roedd unigolion yn eu defnyddio i amddiffyn eu hunain rhag y pla gan gynnwys:<br>  ◦ gwisgo swyn dlysau<br>  ◦ penyd<br>  ◦ fflangellu<br>• defnyddio cwarantin i atal y clefyd rhag lledaenu. |
| 3.2.3<br>Effaith y Pla Du | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• yr effaith tymor byr, er enghraifft ofn, aflonyddu ar fywyd bob dydd<br>• yr effaith yn y tymor hirach, er enghraifft newidiadau mewn cyflogau, ffermio a defnydd tir<br>• effaith y Pla Du ar gymunedau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 4

**Astudiaethau Crefyddol**

Portffolio
35% o'r cymhwyster
60 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o gredoau ac arferion ynghylch bywyd a marwolaeth o ddwy grefydd ac un safbwynt anghrefyddol. Bydd dysgwyr yn edrych ar dystiolaeth i weld sut mae gwahanol safbwyntiau'n dylanwadu ar feddwl moesol a moesegol.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- sut mae gwahanol gredoau a safbwyntiau yn dylanwadu ar farn ar ystyr bywyd
- gwahanol gredoau a safbwyntiau ar ddaioni, drygioni a maddeuant.

### Meysydd cynnwys

4.1: Credoau Crefyddol ac Anghrefyddol
4.2: Credoau Da a Drwg

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn astudio **dwy** o'r crefyddau canlynol:
A. Bwdhaeth
B. Cristnogaeth
C. Hindŵaeth
D. Islam
E. Iddewiaeth
F. Sikhiaeth (Sikhi)

Mae awgrymiadau ategol ar addysgu cynnwys ar gyfer pob crefydd ar gael yn nogfennau'r Canllawiau Addysgu.

| **4.1: Credoau Crefyddol ac Anghrefyddol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>4.1.1 Natur cred<br>4.1.2 Credoau a dysgeidiaethau am ystyr bywyd<br>4.1.3 Credoau a dysgeidiaethau am fywyd ar ôl marwolaeth | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 4.1.1<br>Natur cred | Dylai dysgwyr wybod:<br>• bod cred yn golygu derbyn bod rhywbeth yn bodoli neu'n wir heb brawf<br>• bod rhai pobl yn credu mewn duw neu dduwiau ac yn hunaniaethu fel credinwyr crefyddol<br>• bod rhai pobl a grwpiau ddim yn credu mewn duw neu dduwiau ac yn hunaniaethu fel anghrefyddol, fel Dyneiddwyr. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 4.1.2<br>Credoau a dysgeidiaethau am ystyr bywyd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y dysgeidiaethau a'r credoau crefyddol am ystyr bywyd o ddwy grefydd wahanol<br>• sut mae'r dysgeidiaethau a'r credoau crefyddol hyn yn effeithio ar ddewisiadau bywyd credinwyr. |
| 4.1.3<br>Credoau a dysgeidiaethau am fywyd ar ôl marwolaeth | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• credoau a dysgeidiaethau am fywyd ar ôl marwolaeth mewn dwy grefydd wahanol, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol:<br>    • ailenedigaeth<br>    • ailymgnawdoliad<br>    • bywyd ar ôl marwolaeth<br>• pwysigrwydd bywyd ar ôl marwolaeth i gredinwyr mewn dwy grefydd wahanol. |

**4.2: Credoau Da a Drwg**

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

4.2.1 Gweithredoedd da a drwg

4.2.2 Natur credoau da a drwg

4.2.3 Credoau a dysgeidiaeth am faddeuant

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 4.2.1<br>Gweithredoedd da a drwg | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• beth sy'n gwneud gweithredoedd yn dda neu'n ddrwg<br>• enghreifftiau o weithredoedd da, er enghraifft: helpu, rhoi i elusennau, cysuro ffrind sy'n gofidio, ailgylchu, dweud y gwir<br>• enghreifftiau o weithredoedd drwg, er enghraifft: dwyn, brifo pobl, trachwant a chenfigen. |
| 4.2.2<br>Natur credoau da a drwg | Dylai dysgwyr wybod y credoau a'r dysgeidiaethau crefyddol am dda a drwg mewn dwy grefydd wahanol. |
| 4.2.3<br>Credoau a dysgeidiaeth am faddeuant | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y dysgeidiaethau a'r credoau crefyddol am faddeuant o ddwy grefydd wahanol<br>• sut mae'r dysgeidiaethau a'r credoau crefyddol hyn yn effeithio ar ddewisiadau bywyd credinwyr. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 5

**Astudiaethau Cymdeithasol**

Portffolio
35% o'r cymhwyster
60 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o Gymru fel cymdeithas amrywiol. Byddant yn archwilio materion cymdeithasol, sut mae'r rhain wedi arwain at newid a sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar eu bywydau eu hunain.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- hawliau, cyfrifoldeb a chydraddoldeb yn y Gymru gyfoes
- sut mae mudiadau cymdeithasol yng Nghymru yn arwain at newid.

**Meysydd cynnwys**
5.1: Cymdeithas a Materion Cymdeithasol
5.2: Newid Cymdeithasol a Dinasyddiaeth Weithredol

| **5.1: Cymdeithas a Materion Cymdeithasol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>5.1.1 Hunaniaeth<br>5.1.2 Hawliau, cyfrifoldebau a chydraddoldeb<br>5.1.3 Cymru, Llywodraeth a'r byd ehangach | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 5.1.1<br>Hunaniaeth | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• pa ffactorau sy'n llunio hunaniaeth<br>• pa rannau o hunaniaeth y mae unigolion yn eu dewis drostyn nhw eu hunain<br>• pa rannau o hunaniaeth y mae pobl eraill yn dylanwadu arnyn nhw. |
| 5.1.2<br>Hawliau, cyfrifoldebau a chydraddoldeb | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• ystyr y termau hawliau, cyfrifoldebau a chydraddoldeb<br>• bod gan ddinasyddion hawliau allweddol sy'n cael eu diogelu gan y gyfraith yng Nghymru.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall yr hawliau a'r cyfrifoldebau canlynol:<br>• Hawl i fywyd: cyfrifoldeb i beidio â niweidio na pheryglu bywydau pobl eraill<br>• Hawl i gael eu diogelu rhag gwahaniaethu: Cyfrifoldeb i beidio â gwahaniaethu yn erbyn ei gilydd<br>• Hawl i ryddid mynegiant: Cyfrifoldeb i beidio â defnyddio iaith niweidiol neu atgas neu ddifrïol am unigolyn/grŵp mewn cymdeithas<br>• Hawl i addysg: Cyfrifoldeb i fynd i'r ysgol |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Hawl i breifatrwydd: Cyfrifoldeb i beidio â chyrchu gwybodaeth breifat na'i gwneud yn gyhoeddus. |
| 5.1.3<br>Cymru, Llywodraeth a'r byd ehangach. | Dylai dysgwyr ddeall sut mae dwy enghraifft o benderfyniadau a wnaed gan Senedd Cymru wedi effeithio ar fywydau pobl, fel polisi prydau ysgol am ddim, presgripsiynau am ddim, tâl am fagiau plastig neu fentrau ailgylchu. |

| **5.2: Newid Cymdeithasol a Dinasyddiaeth Weithredol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>5.2.1 Deall materion cymdeithasol<br>5.2.2 Gwerthuso ymgyrch gymdeithasol yng Nghymru<br>5.2.3 Cynllunio i wneud gwahaniaeth | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 5.2.1<br>Deall materion cymdeithasol | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• ystyr y term mater cymdeithasol<br>• enghreifftiau o faterion cymdeithasol fel tlodi, digartrefedd, allgáu digidol, hiliaeth neu iechyd meddwl.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall effeithiau materion cymdeithasol ar unigolion a chymunedau yng Nghymru. |
| **5.2.2**<br>Gwerthuso ymgyrch gymdeithasol yng Nghymru | Dylai dysgwyr wybod beth yw ymgyrch gymdeithasol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut a pham mae ymgyrchoedd cymdeithasol yn cael eu creu<br>• dulliau ymgyrchu gwahanol, fel canfasio o ddrws i ddrws, dosbarthu taflenni, ralïau cyhoeddus, ymgysylltu â'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol<br>• bod dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio at bwrpasau gwahanol (e.e., posteri i godi ymwybyddiaeth, casgliadau i helpu pobl eraill)<br>• un enghraifft o ymgyrch yng Nghymru, gan gynnwys ei heffeithiolrwydd, ei heffaith a'i chyrhaeddiad, o'r rhestr ganlynol:<br>  ◦ Cadwch Gymru'n daclus<br>  ◦ Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth<br>  ◦ Ymgyrchoedd Comisiynydd Plant Cymru<br>  ◦ Codi tâl am fagiau plastig<br>  ◦ Wythnos Gwrth-fwlio<br>  ◦ Stonewall Cymru - Derbyn yn Ddieithriad.<br>  ◦ Ymgyrch Senedd Ieuenctid y Senedd<br>  ◦ Ymwybyddiaeth o fanciau bwyd<br>  ◦ Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - Diwrnod Gwisgo Melyn/Amser i Siarad Cymru. |
| 5.2.3<br>Cynllunio i wneud gwahaniaeth | Dylai dysgwyr allu cynllunio ymgyrch mewn perthynas â mater cymdeithasol penodol, gan gynnwys:<br>• dewis mater cymdeithasol<br>• dewis dulliau ymgyrchu priodol<br>• esbonio sut y bydden nhw'n mesur llwyddiant yr ymgyrch. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 6

**Creu cymunedau cynaliadwy yng Nghymru**

Portffolio
30% o'r cymhwyster
50 marc
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- helpu dysgwyr i lunio cysylltiadau ystyrlon rhwng gwahanol feysydd y dyniaethau drwy astudio cynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd dysgwyr yn archwilio cynaliadwyedd yng Nghymru ac yn datblygu gwybodaeth i feddwl am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu pobl heddiw.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- archwilio cynaliadwyedd amgylcheddol yng Nghymru o bum safbwynt — **Daearyddiaeth, Hanes, Busnes, Astudiaethau Crefyddol, ac Astudiaethau Cymdeithasol.**
- ymchwilio i fentrau cynaliadwyedd lleol a defnyddio tystiolaeth i ddeall y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r mater byd-eang hwn.

**Meysydd cynnwys**

6.1: Diffinio Cynaliadwyedd Amgylcheddol
6.2: Safbwyntiau ar Gynaliadwyedd Amgylcheddol
6.3: Gweithredu Amgylcheddol

| **6.1: Diffinio Cynaliadwyedd Amgylcheddol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>6.1.1 Beth yw ystyr cynaliadwyedd amgylcheddol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 6.1.1<br>Beth yw ystyr cynaliadwyedd amgylcheddol | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• beth yw ystyr cynaliadwyedd amgylcheddol<br>• enghreifftiau o gynaliadwyedd amgylcheddol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

| **6.2: Safbwyntiau ar Gynaliadwyedd Amgylcheddol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>6.2.1 Gweithgareddau dynol sydd wedi niweidio'r amgylchedd<br>6.2.2 Rhesymau moesegol a chrefyddol pam y dylem ofalu am yr amgylchedd | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 6.2.1<br>Gweithgareddau dynol sydd wedi niweidio'r amgylchedd | Dylai dysgwyr wybod am weithgareddau dynol sydd wedi cyfrannu at heriau amgylcheddol tymor hir, er enghraifft:<br>• datgoedwigo<br>• cloddio<br>• trefoli. |
| 6.2.2<br>Rhesymau moesegol a chrefyddol pam y dylem ofalu am yr amgylchedd | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o ystyr y term moesegol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• bod byw'n gynaliadwy yn ddewis moesegol, sy'n golygu gwneud beth sy'n iawn i'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol<br>• rhesymau moesegol dros gynaliadwyedd amgylcheddol, er enghraifft:<br>  ◦ amddiffyn anifeiliaid a natur rhag niwed yw'r peth cywir i'w wneud<br>  ◦ mae newid hinsawdd yn effeithio ar bawb<br>  ◦ mae gan blant yr hawl i dyfu i fyny mewn byd diogel ac iach<br>• mae gofalu am y blaned yn cael ei ystyried yn ddyletswydd mewn sawl ffydd<br>• safbwyntiau crefyddol ar gynaliadwyedd amgylcheddol o un o'r crefyddau canlynol:<br>  ◦ Bwdhaeth<br>  ◦ Cristnogaeth<br>  ◦ Hindŵaeth<br>  ◦ Islam<br>  ◦ Iddewiaeth<br>  ◦ Sikhiaeth (Sikhi). |

| **6.3: Gweithredu Amgylcheddol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>6.3.1 Rôl unigolion wrth amddiffyn yr amgylchedd<br>6.3.2 Rôl busnesau wrth amddiffyn yr amgylchedd<br>6.3.3 Menter amgylcheddol leol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 6.3.1<br>Rôl unigolion wrth amddiffyn yr amgylchedd | Dylai dysgwyr ddeall enghreifftiau o sut y gall pobl fod yn fwy cynaliadwy, megis:<br>• prynu nwyddau lleol<br>• dewis cynhyrchion mewn defnydd pecynnu ecogyfeillgar.<br>• gwella effeithlonrwydd egni<br>• ailgylchu |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • defnyddio cerbydau trydan<br>• defnyddio egni adnewyddadwy. |
| 6.3.2<br>Rôl busnesau wrth amddiffyn yr amgylchedd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• ffyrdd y gall busnesau fod yn fwy cynaliadwy, er enghraifft:<br>    • defnyddio llai o ddefnydd pecynnu<br>    • defnyddio egni adnewyddadwy<br>    • lleihau llygredd<br>• pam mae'r dulliau hyn yn gwneud busnesau'n fwy cynaliadwy<br>• ffyrdd y mae un busnes penodol yn amddiffyn yr amgylchedd. |
| 6.3.3<br>Menter cynaliadwyedd amgylcheddol leol | Dylai dysgwyr wybod am enghreifftiau lleol o fentrau cynaliadwyedd, fel plannu coed, gerddi cymunedol, casglu sbwriel, glanhau traethau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• cryfderau a gwendidau'r fenter<br>• effaith y fenter<br>• sut y gallai'r fenter gael ei gwella neu'r camau nesaf y mae angen eu cymryd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- datblygu empathi, goddefgarwch a thosturi drwy astudio cyd-destunau a safbwyntiau gwahanol ac amrywiol
- gweithio ar y cyd
- gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster
- magu hyder i feddwl yn annibynnol ac adfyfyrio ar sut y gallai eu barn dyfu neu newid.

Mae ymhelaethiad pellach ar y cyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol i'w gweld yn Atodiad A. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion a syniadau sy'n berthnasol i'r dyniaethau

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i lunio cysylltiadau rhwng materion a syniadau sy'n berthnasol i'r dyniaethau

**AA3**
Archwilio materion, digwyddiadau neu syniadau sy'n berthnasol i'r dyniaethau

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Unedau 1 – 5 (bydd dysgwyr yn cwblhau dwy uned) | 14% | 10.5% | 10.5% | 35% |
| Uned 6 (uned orfodol) | 12% | 9% | 9% | 30% |
| Pwysoliad cyffredinol | **40%** | **30%** | **30%** | **100%** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.2 Trosolwg o'r Asesu

Caiff pob uned ei hasesu drwy bortffolio.
Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg wedi'u cwblhau.

Bydd y tasgau ar gyfer pob portffolio yn cael eu gosod gan CBAC a byddant yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb. Bydd cyfleoedd i ddefnyddio enghreifftiau lleol neu enghreifftiau eraill a ddewiswyd yn bersonol wrth ymateb i dasgau penodol.

Bydd y portffolios yn cael eu marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC.

Bydd yr asesiad cyntaf ar gyfer Unedau 1-5 yn digwydd yn Haf 2028. Bydd yr asesiad cyntaf ar gyfer Uned 6 yn digwydd yn Haf 2029.

## 3.3 Hyd yr asesiad

Fel arfer, dylai hyd gweithgareddau asesu fod o fewn yr amser dangosol a awgrymir ar gyfer pob uned. Drwy hyn bydd modd cefnogi cymharoldeb rhwng canolfannau gan ganiatáu amser ar gyfer addasiadau rhesymol yn seiliedig ar anghenion dysgwyr hefyd.

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr amser a ganiateir yn briodol ac yn gyson â nodau a deilliannau dysgu'r cymhwyster.

Rhaid i ganolfannau gofnodi amcangyfrif o'r amser sy'n cael ei dreulio ar weithgareddau asesu ar gyfer pob dysgwr a phob uned. Rhaid cadw'r cofnodion hyn at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd.

## 3.4 Rheoli'r asesiad

Mae holl unedau'r cymhwyster hwn yn cael eu hasesu trwy asesiad di-arholiad. Mae'r asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at y cyfarwyddiadau sy'n rhan o ddogfen y *CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol).* Noder **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer *Manylebau TAG a TGAU* yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

**Gosod y dasg**
Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

**Gwneud tasgau**
Mae cwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan reolaethau mewn pum maes: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, dilysu a chydweithio.

- Amser: Bydd pob pecyn asesu yn nodi nad oes cyfyngiad amser; rhoddir amser a awgrymir ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol.
- Adnoddau: Bydd unrhyw ofynion adnoddau penodol yn cael eu hamlinellu yn y pecyn asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- Goruchwylio a dilysu: Fel arfer, dylai dysgwyr gael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu.
- Cydweithio: Caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hyn wedi'i nodi. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i'r athro a'r dysgwr lofnodi taflenni dilysu.

**Marcio Tasgau ar gyfer asesiad di-arholiad wedi'i asesu'n fewnol**

Rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth o berfformiad (e.e. cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:
- bod dysgwyr ac athrawon yn llofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd
- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau'r CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformiad yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.5 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol

Ym mhob uned lle mae'r ganolfan yn asesu'r portffolio, gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol yn ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:
- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Ni ddylai athrawon:
- ganiatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Unedau 1-5 a 2028 ar gael i'w cyflwyno yn Haf 2028 (a phob Haf wedi hynny). Bydd Uned 6 ar gael i'w chyflwyno yn Haf 2029 (a phob Haf wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod:

| | | **Codau Cofrestru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **Uned 1** | Busnes: Portffolio | | |
| **Uned 2** | Daearyddiaeth: Portffolio | | |
| **Uned 3** | Hanes: Portffolio | | |
| **Uned 4** | Astudiaethau Crefyddol: Portffolio | | |
| **Uned 5** | Astudiaethau Cymdeithasol: Portffolio | | |
| **Uned 6** | Creu cymunedau cynaliadwy yng Nghymru: Portffolio | | |

## 5.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
|---|---|---|
| **Cod cyfnewid** | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 5.3 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymhwyster CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen y Dyniaethau yn cael ei adrodd ar raddfa pedwar pwynt: Llwyddiant Mynediad 1, Llwyddiant Mynediad 2, Llwyddiant Mynediad 3 a Llwyddiant Lefel 1 (a Llwyddiant Lefel 1 yw'r radd uchaf). Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Llwyddiant Mynediad 1 yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw'n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | Marciau crai | Pwysoliad | Uchafswm GMU | Lefel 1 | Mynediad 3 | Mynediad 2 | Mynediad 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 60 | 35% | 105 | 84 | 63 | 42 | 21 |
| **Uned 2** | 60 | 35% | 105 | 84 | 63 | 42 | 21 |
| **Uned 3** | 60 | 35% | 105 | 84 | 63 | 42 | 21 |
| **Uned 4** | 60 | 35% | 105 | 84 | 63 | 42 | 21 |
| **Uned 5** | 60 | 35% | 105 | 84 | 63 | 42 | 21 |
| **Uned 6** | 50 | 30% | 90 | 72 | 54 | 36 | 18 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | Marciau crai | Pwysoliad | Uchafswm GMU | Lefel 1 | Mynediad 3 | Mynediad 2 | Mynediad 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyfarniad Pwnc** | 170 | 100% | 300 | 240 | 180 | 120 | 60 |

## 5.4 Ailsefyll asesiadau

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad wedi'i farcio gan y ganolfan unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Nid ydynt yn cael gwella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael ‘0’ marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddyn nhw ail-wneud y cymhwyster.

## 5.5 Ail-wneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am asesiad wedi'i farcio gan ganolfan am y trydydd tro, yna mae'n rhaid iddo ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster, gall roi hyd at ddau gynnig ar bob asesiad di-arholiad sy'n cael ei farcio gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 | Uned 5 | Uned 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Themâu Trawsgwricwlaidd | | | | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynaliadwyedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Hawliau Dynol | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 | Uned 5 | Uned 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymhwysedd Digidol | | | | | | |
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynhyrchu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4** | **Uned 5** | **Uned 6** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Cyfannol | | | | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.